

ATODIAD A

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

ADRODDIAD YMGYNGHORI

Cynigion: Ad-drefnu ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a darpariaeth chweched dosbarth yn ardal Pontypridd.

Cynnwys

		<u>Tudalen</u>
1.	Â phwy ymgynghoron ni?	1
2.	Y Cynigion	4
3.	Y Broses Ymgynghori	4
4.	Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad	6
	Cynnig 1 – Newidiadau i'r chweched dosbarth	8
	Cynnig 2 – Creu ysgol 3-16 newydd ar gyfer y Ddraenen Wen	17
	Cynnig 3 – Creu ysgol 3-16 newydd ar gyfer Pontypridd	19
	Cynnig 4 – Creu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd	21
	Cynnig 5 – Newidiadau i Ddalgyllchoedd	23
5.	Casgliad	25
	<u>Atodiadau</u>	
1.	Dogfen ymgynghori	
2.	Aseidiadau o'r Effaith ar y Gymuned x 4 Aseidiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Aseidiad o'r Effaith ar y Gymraeg	
3.	Nodiadau o'r cyfarfodydd ymgynghori	
4.	Nodiadau o'r cyfarfod gyda Phwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc	
5.	Ymateb Estyn i'r cynigion	
6.	Llythyr Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen at rieni / cynhalwyr	
7.	Llythyr Ysgol Uwchradd Pontypridd at rieni / cynhalwyr	
8	Canlyniadau ymgynghoriad ar wahân gan Owen Smith AS	

Caiff yr adroddiad yma'i baratoi yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Ei bwrpas yw llywio canlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal yn ystod y cyfnod rhwng 15 Hydref 2018 a 31 Ionawr 2019 gyda'r holl randdeiliaid a'r partïon â buddiant sydd wedi'u rhestru isod.

1. Â phwy ymgynghoron ni?

Cafodd copi o'n dogfen ymgynghori a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth am ein cynnig, ei anfon i'r rhanddeiliaid canlynol. Cafodd y ddogfen ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd: www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/SchoolConsultations/Schoolconsultations.aspx

- Cyrff Llywodraethu, rhieni, cynhalwyr a staff Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd Heol-y-celyn, Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Gynradd Cilfynydd, Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton
- Cyrff Llywodraethu, rhieni, cynhalwyr a staff Ysgol Gynradd Abercynon, Ysgol Gynradd y Cefn, Ysgol Gynradd Coedpenmaen, Ysgol Gynradd Coed-y-lan, Ysgol Gynradd Craig-yr-hesg, Ysgol Gynradd Ffynnon Taf, Ysgol Gynradd Gwauncelyn, Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn, Ysgol Gynradd Llanilltud Faerdref, Ysgol Gynradd Llantrisant, Ysgol Gynradd Llwyn-crwn, Ysgol Gynradd Maes-y-bryn, Ysgol Gynradd Maes-y-coed, Ysgol Gynradd Parc Lewis, Ysgol Gynradd Penygawsi, Ysgol Babanod Trallwng, Ysgol Gynradd Trehopcyn, Ysgol Gynradd Trerobart, Ysgol Gynradd Ynys-boeth, Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon, Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James, Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg, Ysgol Gynradd Mihangel Sant Eglwys Gatholig Rhufain, Ysgol y Forwyn Fair Eglwys Gatholig Rhufain, Ysgol Gynradd y Seintiau Gabriel a Raphael Eglwys Gatholig Rhufain (Caerffili), Ysgol Gyfun Aberpennar, Ysgol Gyfun Garth Olwg, Ysgol Tŷ Coch
- Cyrff llywodraethu'r ysgolion cynradd ac uwchradd cyfagos
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Corff Llywodraethu Coleg y Cymoedd
- Corff Llywodraeth Coleg Dewi Sant
- Cyngor Dinas a Sir Caerdydd
- Corff Llywodraethu Prifysgol De Cymru
- Gweinidog Cymru dros Addysg a Sgiliau
- Aelodau Cynulliad holl etholaethau ac ardaloedd rhanbarthol sy'n gwasanaethu Rhondda Cynon Taf
- Aelodau Seneddol etholaethau Cwm Rhondda, Pontypridd, Ogwr a Chwm Cynon
- Estyn
- Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
- Undebau llafur athrawon a staff cymorth

- Consortiwm Canolbarth y De
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru
- Y Bartneriaeth Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cymdeithas Drafnidiaeth De Ddwyrain Cymru
- Cymunedau am Waith a Mwy – Rhaglen gymorth i gael gwaith
- Cyngorau Cymuned: Cyngor Tref Pontypridd, Cyngor Cymuned Llanilltud Faerdref, Cyngor Cymuned Llantrisant, Cyngor Cymuned Ynys-y-bŵl/Coed y Cwm
- v Awdurdodau Lleol Cyfagos
- Mudiad Meithrin
- Menter Iaith
- Comisiynydd y Gymraeg

2. Y Cynigion

Dyma'r cynigion:

- Datblygu cyfleusterau addysg ôl-16 oed yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Y Beddau, a Choleg y Cymoedd, Nantgarw. Bydd darpariaeth ar gael yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd ar gyfer y disgyblion hynny sy'n dymuno dilyn addysg Gatholig;
- Creu dwy ysgol 3-16 oed newydd, ym Mhontypridd a'r Ddraenen Wen, gan rannu adnoddau'r sectorau cynradd ac uwchradd;
- Gwella a chynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy adeiladu ysgol newydd ar safle Ysgol Heol-y-celyn – byddai'r adeilad yn uno'r ddarpariaeth Gymraeg yn Ysgol Heol-y-celyn ac Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton;
- Diwygio dalgylchoedd Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gyfun Bryncelynnog i fodloni'n well y galw am leoedd ysgol;
- Gwella amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y ddogfen ymgynghori sydd wedi'i dosbarthu i'r holl randdeiliaid yn y rhestr drosodd sydd wedi'i hatodi yn Atodiad 1. Mae Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg hefyd wedi'u cynnwys fel Atodiad 2.

3. Y Broses Ymgynghori

Cafodd yr holl randdeiliaid wedi'u nodi yn Adran 1 wybod am argaeledd y ddogfen ymgynghori a phan oedd angen, cafodd copi caled ei roi iddyn nhw. Cafodd y cyfarfodydd canlynol eu cynnal hefyd:

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Grŵp	Amser, Dyddiad a Lleoliad
Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Llun, 12 Tachwedd 2018, 3.30pm, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen
Ysgol Uwchradd Pontypridd	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Llun 12 Tachwedd 2018, 3.30pm, Ysgol Uwchradd Pontypridd
Ysgol Gynradd Heol-y-celyn	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Mercher 14 Tachwedd 2018, 4pm, Ysgol Gynradd Heol-y-celyn
Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Mercher 14 Tachwedd 2018, 4pm, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen
Ysgol Gynradd Cilfynydd	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Llun, 19 Tachwedd 2018, 4pm, Ysgol Gynradd Cilfynydd

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Grŵp	Amser, Dyddiad a Lleoliad
Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2018, 4pm, Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton
Ysgol Gyfun Bryncelynnog	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Iau, 22 Tachwedd 2018, 3.30pm, Ysgol Gyfun Bryncelynnog
Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain	Cyfarfod ar gyfer Llywodraethwyr a Staff	Dydd Iau, 22 Tachwedd 2018, 3.30pm, Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain
Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen	Cyngor yr Ysgol	Dydd Llun, 12 Tachwedd 2018, 2pm, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen
Ysgol Uwchradd Pontypridd	Cyngor yr Ysgol	Dydd Llun, 12 Tachwedd 2018, 2pm, Ysgol Uwchradd Pontypridd
Ysgol Gynradd Heol-y-celyn	Cyngor yr Ysgol	Dydd Mercher 14 Tachwedd 2018, 2.30pm, Ysgol Gynradd Heol-y-celyn
Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen	Cyngor yr Ysgol	Dydd Mercher 14 Tachwedd 2018, 2.30pm, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen
Ysgol Gynradd Cilfynydd	Cyngor yr Ysgol	Dydd Llun, 19 Tachwedd 2018, 2.30pm, Ysgol Gynradd Cilfynydd
Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton	Cyngor yr Ysgol	Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2018, 2.30pm, Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton
Ysgol Gyfun Bryncelynnog	Cyngor yr Ysgol	Dydd Iau, 22 Tachwedd 2018, 2pm, Ysgol Gyfun Bryncelynnog
Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain	Cyngor yr Ysgol	Dydd Iau, 22 Tachwedd 2018, 2pm, Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain

Mae'r holl nodiadau o'r cyfarfodydd wedi'u hatodi yn Atodiad 3. Mae'r nodiadau yma'n cofnodi'r cwestiynau a gafodd eu codi, a'r sylwadau a datganiadau a gafodd eu gwneud. Mae ymatebion wedi'u nodi lle bo'n briodol.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd yma, ac er mwyn rhoi cyfle i gael trafodaeth a sgwrs ehangach ar y cynigion, cafodd pum noson agored/arddangosfa eu cynnal mewn gwahanol leoliadau ledled yr ardal oedd wedi'u heffeithio gan y cynigion. Roedd swyddogion o'r Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, Eiddo'r Cyngor, Prifffyrdd, Cludiant Ysgol ac Adnoddau Dynol yn bresennol.

Yn y nosweithiau agored yma, gofynnwyd i bawb gofnodi i mewn er mwyn cofnodi'r lefel bresenoldeb. Mae'r cofrestrau presenoldeb yn dangos bod cyfanswm o 187 o bobl wedi dod i'r achlysuron yma dros y pum noson. Roedd y sawl a ddaeth yn cynnwys llywodraethwyr ysgol, staff, disgyblion, cynghorwyr lleol, Aelod Cynulliad yr etholaeth, yr Aelod Seneddol, rhieni a thriolion lleol. Y nifer uchaf o ymgynghoreion a ddaeth i sesiwn oedd 59, ac 20 oedd y nifer isaf.

Cafodd cyfarfod gyda'r Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc ei gynnal ar 19 Rhagfyr 2018, lle cafodd y cynigion ymgynghori eu cyflwyno a sylwadau a chwestiynau ar y cynigion eu derbyn, a lle bo'n briodol, rhoddodd y Swyddogion oedd yn bresennol ymatebion. Mae cofnodion o'r cyfarfod yma i'w gweld yn Atodiad 4.

Mae'n ofynnol i ni ymgynghori ag Arolygiaeth Addysg Cymru, Estyn ar bob un o'n cynigion. Mae crynodeb o ymateb Estyn wedi'i nodi isod, ac mae'r ymateb manwl ar gael yn Atodiad 5.

- **Cynnig i newid darpariaeth chweched dosbarth**--*Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol yn yr ardal o leiaf;*
- **Cynnig i newid darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd yn ardal y Ddraenen Wen** – *Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol o leiaf;*
- **Cynnig i newid y ddarpariaeth gynradd ac uwchradd ym Mhontypridd** – *Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol yn yr ardal o leiaf;*
- **Cynnig i gau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton a ffrwd Gymraeg Ysgol Gynradd Heol-y-celyn a chreu ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Cymraeg** – *Barn Estyn yw bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol yn yr ardal o leiaf.*

4. Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r ymatebion i'r materion a gafodd eu codi yn y cyfarfodydd sydd wedi'u crybwyll uchod wedi'u crynhoi yn nodiadau'r cyfarfodydd sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad 2.

Holiaduron

Daeth 2,168 o holiaduron i law yn ystod y cyfnod ymgynghori. Cafodd rhai eu hanfon drwy e-bost, daeth rhai i law yn y nosweithiau agored, cafodd rhai eu hanfon drwy'r post neu â llaw, a daeth y mwyafrif helaeth drwy law yr ysgolion wedi'u heffeithio gan y cynigion.

Cwblhaodd disgyblion Ysgolion Uwchradd y Ddraenen Wen a Phontypridd gyfran fawr o'r holiaduron a ddaeth i law. Cawson ni wybod gan aelodau staff a disgyblion yr ysgolion yma fod yr holiaduron wedi'u cwblhau yn ystod amser ysgol ac o dan oruchwyliaeth staff. Cafodd yr holiaduron yma'u cyflwyno gan yr ysgolion eu hunain, neu eu casglu'n uniongyrchol ganddyn nhw.

Ysgrifennodd Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Uwchradd Pontypridd at rieni a chynhalwyr, gan rannu'u hymateb arfaethedig i'r cynigion. Roedd y llythyr yn annog rhieni a chynhalwyr i gopïo'r ymatebion wedi'u rhannu gan yr ysgolion priodol. Mae'r llythyrau yma wedi'u cynnwys yn Atodiadau 6 a 7.

Er mwyn bod yn eglur, dylid nodi bod y templed ar gyfer cofnodi ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'i newid gan ddwy o'r ysgolion a bod cyfran sylweddol o'r ymatebion wedi cael eu cofnodi wedi hynny ar y profforma wedi'i addasu. Rydyn ni'n cydnabod efallai eu bod nhw wedi'u haddasu oherwydd bod yr ysgolion o'r farn doedd pob un o'r cwestiynau ddim yn berthnasol i'r holl ymgynghoreion. Fodd bynnag, rydyn ni'n ystyried bod pob cynnig unigol yn rhan annatod o'r cynllun rheoli ysgol strategol ehangach, a thrwy beidio â rhoi cyfle i ymgynghoreion lenwi'r holiadur llawn, chawson nhw ddim cyfle i wneud sylwadau llawn ar yr holl gynigion. Dyw hi ychwaith ddim yn amlwg a gafodd dysgwyr afael ar yr wybodaeth ymgynghori lawn er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus ar yr holl gynigion.

Nifer yr holiaduron wedi'u diwygio a ddaeth i law yw 1,016. Mae hyn yn cyfateb i 47% o gyfanswm yr holiaduron a ddaeth i law.

Mae dadansoddiad o'r sawl a gyflwynodd holiaduron isod:

Cyfanswm a ddaeth i law	2,168
Rhieni	533
Disgyblion	1,040
Staff	163
Trigolion	64
Arall/Heb ei nodi	368

Mae canlyniadau'r holiaduron a ddaeth i law isod:

Cynnig 1 – Y Newidiadau Arfaethedig i'r Ddarpariaeth Chweched Dosbarth							
O blaid	150	Yn erbyn	1,735	Ddim yn siŵr	130	Ddim yn berthnasol Heb ateb	153
Cynnig 2 – Creu ysgol 3-16 newydd ar gyfer y Ddraenen Wen							
O blaid	278	Yn erbyn	504	Ddim yn siŵr	299	Ddim yn berthnasol Heb ateb	1,087
Cynnig 3 – Creu ysgol 3-16 newydd ar gyfer Pontypridd							
O blaid	205	Yn erbyn	746	Ddim yn siŵr	738	Ddim yn berthnasol Heb ateb	479
Cynnig 4 – Creu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd							

O blaid	125	Yn erbyn	427	Ddim yn siŵr	333	Ddim yn berthnasol Heb ateb	1,283
Cynnig 5 – Newidiadau i ddalgylch							
O blaid	926	Yn erbyn	698	Ddim yn siŵr	317	Ddim yn berthnasol Heb ateb	227

Gohebiaeth Gyffredinol

Yn ogystal â'r holiaduron, anfonodd nifer o ymatebwyr lythyrau ac e-byst. Daeth 427 o ymatebion ysgrifenedig i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac o'r rhain roedd 109 yn gopiau dyblyg. Mae'r Cabinet wedi craffu ar bob un o'r ymatebion a chan nhw'u hystyried yn llawn yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

Cynhaliodd Owen Smith AS ymgynghoriad ar wahân ar y cynigion drwy'r ysgolion sy wedi'u heffeithio. Dyw canlyniadau'r ymgynghoriad yma ddim wedi'u cynnwys yng nghorff yr adroddiad yma. Mae hwn yn ddefnydd amhriodol o amser ac adnoddau ysgol, gan ddyblygu proses statudol dydy Mr Smith ddim â chyfrifoldeb drosti. Casglodd a dadansoddodd Owen Smith MP ganlyniadau'r ymgynghoriad ychwanegol yma. Er budd eglurder, mae'r wybodaeth yma wedi'i chynnwys yn Atodiad 8.

Isod ceir crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori o'r holiaduron a gohebiaeth arall, yn ogystal ag adborth a gafodd ei gyflwyno ar lafar yn y sesiynau galw heibio cyhoeddus.

Cawsom nifer o lythyrau a negeseuon e-bost wedi'u dyblygu, ac roedd nifer o ymatebion, heb eu dyblygu, yn cynnwys themâu, cwestiynau a phryderon cyffredin. Lle mae hyn yn wir, er mwyn osgoi ailadrodd, rydyn ni wedi nodi'r rhain fel sylwadau unigol yn y rhan yma o'r adroddiad.

Mae ymatebion wedi'u grwpio isod mewn perthynas ag adran y cynigion maen nhw'n cyfeirio atyn nhw. Lle bo angen a/neu lle bo'n briodol, mae ein hymatebion wedi cael eu cynnwys: Mae'r sylwadau mewn print bras a lle bo'n briodol, mae ein hymateb oddi tany'n nhw:

Cynnig 1 – Newidiadau i'r chweched dosbarth

Ysgol y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain

- **Pam dyw Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain ddim yn derbyn buddsoddiad tebyg i'r hyn sy'n cael ei fuddsoddi yn yr ysgolion eraill yn rhan o'r cynnig?**

Mae Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain yn ysgol wirfoddol a gynorthwyir ac yn cael ei llywodraethu a'i rheoli gan yr Eglwys Babyddol. Cyfrifoldeb yr Esgobaeth Gatholig Rufeinig yw gwneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid cyfalaf

i wella ansawdd yr adeiladau neu i greu ysgolion 3-16. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyraniad cyfalaf ar delerau ffafriol ar gyfer ysgolion eglwysig, lle mae Llywodraeth Cymru yn bodloni 85% o'r gofynion buddsoddi cyfalaf. Serch hynny, mae'r Cyngor yn cefnogi'r Esgobaeth er mwyn datblygu achosion busnes i sicrhau cyllid Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ar gyfer nifer o fuddsoddiadau posibl mewn ysgolion eglwysig.

- **Oes gan Goleg Dewi Sant y capasiti i dderbyn disgyblion newydd?**

Mae Pennaeth Coleg Dewi Sant wedi cadarnhau bod gyda'r coleg y capasiti.

- **Sut bydd disgyblion yn cael eu cludo i Goleg Dewi Sant?**

Caiff cludiant am ddim ei gynnig i'r rhai sy'n bodloni'r meini prawf Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol. Bydd raid i ddisgyblion sy ddim yn byw yn Rhondda Cynon Taf gysylltu ag Adran Cludiant Ysgol eu Cyngor er mwyn cael rhagor o wybodaeth am feini prawf a chymhwyster.

- **Caiff y cynigion i gydweithio â Choleg Dewi Sant, Caerdydd eu croesawu.**

Mae'r canlyniadau Lefel A yng Ngholeg Dewi Sant yn dda iawn. Er enghraifft, yn 2018, enillodd 30% o fyfyrwyr raddau A*-A, enillodd 84% o fyfyrwyr raddau A*-C ac enillodd 98% o fyfyrwyr raddau A*-E.

- **Pam na chafodd Ysgol y Cardinal Newman ei hystyried yn safle priodol ar gyfer y ganolfan chweched dosbarth?**

Mae darpariaeth addysg ôl-16 eisoes yn yr ardal yma ar Gampws Nantgarw yng Ngholeg y Cymoedd. Mae myfyrwyr ôl-16 yn Ysgol y Cardinal Newman, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Uwchradd Pontypridd eisoes yn dewis Coleg y Cymoedd. Cyfraddau disgyblion blwyddyn 11 sy'n trosglwyddo i flwyddyn 12 yn eu hysgol bresennol yw 35.83%, 35.71% a 32.26% yn y drefn honno, gyda 47.5%, 48.2% a 48.3% yn y drefn honno yn trosglwyddo i Addysg Bellach.

- **Ble mae asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ac asesiad o'r effaith ar y gymuned ar gyfer Ysgol y Cardinal Newman?**

Caiff y ddogfen ymgynghori a'r broses ymgynghori eu paratoi yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Dyw'r dogfennau yma ddim yn ofynnol ar gyfer y newidiadau sy'n effeithio ar Ysgol y Cardinal Newman.

- **A ymgynghorwyd â disgyblion?**

Do. Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion, cyfarfu swyddogion o'r Cyngor â chynghorau ysgol unigol yn rhan o'r broses ymgynghori. Mae nodiadau o'r sesiynau yma wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

Yn ogystal â hyn, daeth nifer o ymatebion ysgrifenedig i law gan ddisgyblion yn ystod y cyfnod ymgynghori.

- **A fydd Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn dal i weithio gydag Ysgol Gyfun y Pant? Fydd modd ehangu'r dalgyrch ar gyfer addysg ôl-16 i gynnwys Ysgol y Pant?**

Y cyngor wedi'i roi i'r ysgol yw parhau i gydweithio ag Ysgol y Pant ac atgyfnerthu'r cysylltiadau a'r cyfleoedd dysgu wedi'u rhannu y mae'r ddwy ysgol wedi'u creu ymhellach. Ar hyn o bryd does dim cynlluniau i gynnwys Ysgol y Pant yn y cynigion yma.

- **Pam dyw Ysgol Gyfun y Cardinal Newman ddim wedi cael ei hystyried ar gyfer y cynigion ysgol 3-16? Dylai Ysgol Gynradd Mihangel Sant Eglwys Gatholig Rhufain ymuno ag Ysgol y Cardinal Newman er mwyn creu ysgol 3-16.**

Fel sy wedi'i nodi'n flaenorol, yr Esgobaeth fyddai raid penderfynu bwrw ymlaen â chynllun o'r fath.

Ysgol Gyfun Bryncelynnog

- **Beth fydd canlyniad y buddsoddiad yn yr ysgol newydd?**

Mae'r £10miliwn wedi'i ddyrannu i'r prosiect yma yn rhan o swm mwy sydd wedi'i gymeradwyo mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru drwy ei Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Bydd angen i'r Cyngor gynnal adolygiad llawn o safle'r ysgol a bydd yn cynnal arolygon o'r safle ac adeiladau cyn bydd modd i waith dylunio cynnar ddechrau. Bydd hyn yn cael ei wneud ar y cyd â'r ysgol.

Y flaenoriaeth ar gyfer yr arian yma yw gwella cyfleusterau'r chweched dosbarth yn yr ysgol, ond rhagwelir y bydd gwelliannau eraill a gwaith adnewyddu i'r ysgol hefyd yn rhan o hyn.

- **Oes modd ymestyn y ddarpariaeth ADY i addysg ôl-16 er mwyn sicrhau bod canolfan ragoriaeth y chweched dosbarth yn gynhwysol i bawb?**

A ninnau'n Gyngor, rydyn ni wedi ymrwmo i sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad i'r ddarpariaeth ôl-16 fwyaf addas sy'n briodol i'w hanghenion. Does dim modd i bob dysgwr ag anghenion dysgu ychwanegol gael mynediad i'r cyrsiau Lefel 3 sydd ar gael yn bennaf yn ein hysgolion prif ffrwd gan na fyddai hyn yn briodol i'w hanghenion. Fodd bynnag, bydd pwyslais ar gynllunio effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn parhau ar sicrhau'r ddarpariaeth ôl-16 fwyaf priodol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Ar gyfer dysgwyr sy'n gallu cael mynediad i gyrsiau ôl-16 mewn lleoliad prif ffrwd, bydd angen asesiad cadarn o'u hanghenion a darpariaeth bwrpasol er mwyn sicrhau bod gyda nhw fynediad i'r cwricwlwm a bod deilliannau yn llwyddiannus. I rai dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, mae llwybrau mwy galwedigaethol i ddysgu o fewn sefydliad addysg bellach yn fwy priodol i'w hanghenion a bydd angen cyflwyno cynllun pontio effeithiol.

Mae gan y Cyngor bartneriaeth sefydledig â Choleg y Cymoedd ac mae canolfannau lloeren ysgolion arbennig ôl-16 wedi'u lleoli ar gampysau Aberdâr, Llwynypïa a Nantgarw ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu dwys a chymhleth.

- **Beth yw canolfan ragoriaeth?**

Mae Rhagorol yn derm mae Estyn yn ei ddefnyddio er mwyn barnu cyflawniad darparwr addysg mewn nifer o gategoriâu diffiniedig. Mae ysgol ragorol yn dangos cyflawniad ac ymarfer cryf iawn a chyson ac uchelgais y Cyngor yw sicrhau bod pob

disgybl yn cael mynediad at brofiadau addysgol o ansawdd uchel a darpariaeth ragorol ym mhob cyfnod allweddol, gan gynnwys darpariaeth ôl-16.

O ran y cynigion yma, bydden ni'n diffinio hyn fel darpariaeth addysg sydd â safonau rhagorol o ran arweinyddiaeth, dysgu a lles, mewn cyfleusterau sydd â'r gallu i ddarparu profiad addysg yr 21^{ain} Gganrif.

- **Bydd yn anodd i ddisgyblion o wahanol ysgolion ddod at ei gilydd yn y chweched dosbarth.**

Awgryma data fod hyn eisoes yn digwydd yn llwyddiannus iawn yng Ngholeg y Cymoedd ac mewn nifer o ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd pob ysgol uwchradd yn parhau i ddarparu cyngor ac arweiniad gyrfaoedd diduedd, a byddan nhw'n gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion sy'n darparu darpariaeth chweched dosbarth a Choleg y Cymoedd er mwyn sicrhau bod y cyfnod pontio ôl-16 yn parhau i gael ei reoli dda a'i fod yn llwyddo. Mae cynnig dewis i ddysgwyr a sicrhau'r llwybr dysgu mwyaf priodol yn flaenoriaeth er mwyn sicrhau ymgysylltiad a deilliannau llwyddiannus ar gyfer dysgwyr ôl-16.

- **Bydd yr ysgol yn rhy fawr, byddwch chi'n colli'r cyffyrddiad personol.**

Mae nifer o ysgolion mwy o faint yn y Fwrdeistref Sirol, ac ysgolion sylweddol fwy ledled Cymru. Mae manteision cael darpariaeth chweched dosbarth fwy yn gorbwyso manteision ysgolion llai gan fod yr arlwy cwricwlwm mewn ysgolion mwy yn rhoi rhagor o ddewis i ddysgwyr.

- **Bydd o fudd i ddisgyblion gan y bydd rhagor o gyrsiau ar gael.**

Bydd. Bydd rhagor o gyrsiau ôl-16 ar gael a rhagor o gyfleoedd i fyfyrwyr ddewis eu dewis bynciau.

- **Mae'r adeiladau wedi'u dyddio ac mae angen eu hadnewyddu. Bydd y buddsoddiad yn cynnig cyfleusterau a chyfleoedd gwell.**

Bydd. Bydd y buddsoddiad o fudd i bob disgybl nid yn unig y rhai sy'n astudio yn y chweched dosbarth.

- **Mae Ysgol Gyfun Bryncelynnog yn ysgol ardderchog gyda chanlyniadau sy'n gwella.**

Ydy. Mae data Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5 ar gyfer 2018 yn dyst i hyn.

- **Ysgol Gyfun Bryncelynnog yw'r dewis naturiol ar gyfer y ganolfan chweched dosbarth – cyllideb, gallu a chyrhaeddiad.**

Ie. Mae gan yr ysgol arweinyddiaeth gref ac effeithiol ac mae hyn yn amlwg mewn llawer o ddangosyddion cyflawniad.

- **Bydd maint dosbarthiadau ôl-16 ychydig yn fwy yn cynnig amgylchedd dysgu gwell i blant**

Bydd. Mae cael dosbarthiadau ôl-16 mwy o faint yn creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer cydweithio rhwng myfyrwyr ac ar gyfer rhannu ystod ehangach o brofiadau.

Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen

- **Cafodd gwaith partneriaeth ei wneud rhwng Ysgol Gyfun Bryncelynnog ac Ysgol Gyfun y Pant, ond bu'n fethiant.**

Dyw'r cynnig ddim yn awgrymu partneriaeth rhwng Ysgol Uwchradd Pontypridd/Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Bryncelynnog/Ysgol y Pant. Y cynnig yw sefydlu darpariaeth fwy a gwell yn Ysgol Bryncelynnog. Dyw hwn ddim yn drefniant consortiwm. Serch hynny, cydnabyddir bod yr ysgolion yn cynnig ac yn rhannu nifer gyfyngedig o gyrsiau ôl-16.

- **Nifer fach o ddisgyblion yn y ddwy ysgol sydd wedi mynegi diddordeb mewn mynychu Ysgol Bryncelynnog ar gyfer y chweched dosbarth.**

Does dim modd i ni wneud sylwadau ar yr arolwg a gafodd ei gynnal gan y ddwy ysgol gyda'u disgyblion. Fodd bynnag, mae'r data gwirioneddol ar nifer y disgyblion sy'n dewis aros yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Uwchradd Pontypridd ar gyfer eu darpariaeth chweched dosbarth yn isel iawn. Er enghraifft, yn Ysgol Uwchradd Pontypridd ym mis Medi 2018, allan o 155 o ddisgyblion ym mlwyddyn 11 (ym mis Gorffennaf 2018), dim ond 50 a ddychwelodd i'r ysgol ar gyfer Blwyddyn 12, sy'n dangos bod 67.74% wedi dewis darpariaeth amgen. Mae hyn yn awgrymu'n glir dyw Ysgol Uwchradd Pontypridd ddim yn cynnig y dewis o opsiynau cwricwlwm na phrofiadau addysgol y mae dysgwyr yn dymuno eu cael. Yn ogystal â hynny, os yw'r cynnig cwricwlwm yn debygol o gael ei gyfyngu ymhellach yn y dyfodol, mae gostyngiad pellach yn y niferoedd yn anochel a bydd y ddarpariaeth yn dod yn llai a llai hyfyw. Roedd y sefyllfa yr un fath yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ym mis Medi 2018. Allan o 112 o ddisgyblion ym mlwyddyn 11 (ym mis Gorffennaf 2018), dim ond 40 a ddychwelodd i'r ysgol ar gyfer Blwyddyn 12, sy'n dangos bod 64.29% wedi dewis peidio â dychwelyd i Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen. Trwy wella'r cwricwlwm sydd ar gael yn Ysgol Bryncelynnog, mae'n debygol y bydd cynnydd yn nifer y disgyblion fel yn Ysgol Gyfun Tonyrefail yn dilyn gweithredu datblygiadau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yng Nghwm Rhondda.

- **Bydd £10miliwn yn cael ei wario yn Ysgol Bryncelynnog ar gyfer gwella'r adeiladau o ansawdd gwael, ac nid ar gyfer y chweched dosbarth yn unig.**

Mae'n debygol bydd yr holl welliannau i'r adeiladau yn Ysgol Bryncelynnog o fudd i fyfyrwyr y chweched dosbarth a disgyblion eraill. Er enghraifft, bydd pob disgybl yn defnyddio'r labordai gwyddoniaeth a fydd yn cael eu hadnewyddu.

- **Ni ddylid cymharu Ysgolion Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen o ystyried eu bod mewn categorïau Prydau Ysgol am Ddim gwahanol.**

Ar gyfer y ddarpariaeth ôl-16, dyw data Llywodraeth Cymru ddim yn cymharu cyflawniad ysgolion yn seiliedig ar y categorïau prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae data'r Cyngor yn dangos dyw mwyafrif y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ddim yn dychwelyd i'r chweched dosbarth yn Ysgolion Uwchradd Pontypridd a'r Ddraenen Wen. Mae'r mwyafrif yn dewis astudio yng Ngholeg y

Cymoedd. Ym mis Medi 2018, dim ond 10.7% o fyfyrwyr Cyfnod Allweddol 5 oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn Ysgol Uwchradd Pontypridd a'r ffigur cyfatebol oedd 14.0% yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen – ffigur sylweddol is na'r ffigur ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn y ddwy ysgol. Felly, gan dyw'r gymhariaeth prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 5 rhwng Ysgolion Uwchradd Pontypridd, y Ddraenen Wen a Bryncelynnog ddim yn wahanol iawn, dyw hi ddim yn afresymol cymharu a chyferbynnu cyflawniad dysgwyr, yn enwedig o ran Lefel A.

- **Dyweddodd Ysgolion Uwchradd y Ddraenen Wen a Phontypridd fod y canlyniadau Lefel A yn gamarweiniol yn y ddogfen ymgynghori. Maen nhw'n honni eu bod wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru yn y mwyafrif o'r dangosyddion**

Mae'r data yn y ddogfen ymgynghori yn seiliedig ar setiau data Llywodraeth Cymru. Diweddarodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau Cyfnod Allweddol 5 ar 12/11/18. Mae'r tabl canlynol yn dangos y canlyniadau diweddaraf a gafodd eu cyhoeddi ar Setiau Data Craidd Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru ac mae'n cynnig data sy'n ymwneud â deilliannau Lefel 3, y Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Ehangach (AWPS) a chanran y dysgwyr sy'n cyflawni 3A*/C. Mae'r canlyniadau'n cadarnhau bod canlyniadau Cyfnod Allweddol 5 ar gyfer y ddwy ysgol o ran 3A*/C yn gyson is na chyfartaledd RhCT a chyfartaledd Cymru o 2015-2017.

		Lefel 3 %	Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Ehangach	3 A*/C %
2015	Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen	98.2	772.7	14.0
	Ysgol Uwchradd Pontypridd	95.2	856.8	20.6
	Ysgol y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain	96.2	832.4	30.4
	Ysgol Gyfun Bryncelynnog	98.6	670.2	34.7
	RhCT – isaf	89.2	455.9	14.0
	Cyfartaledd RhCT	97.0	730.2	28.6
	Cyfartaledd Cymru	97.0	799.7	40.0
2016	Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen	97.6	772.3	14.3
	Ysgol Uwchradd Pontypridd	100	928.4	27.5
	Ysgol y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain	98.7	812.1	21.3
	Ysgol Gyfun Bryncelynnog	100	823.8	46.6

		Lefel 3 %	Sgôr Pwyntiau Cyfartalog Ehangach	3 A*/C %
	RhCT – isaf	92.2	521.9	11.8
	Cyfartaledd RhCT	97.0	765.7	29.0
	Cyfartaledd Cymru	98.0	823.2	38.3
2017	Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen	100	739.9	41.7
	Ysgol Uwchradd Pontypridd	100	820.9	42.6
	Ysgol y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain	95.6	774.8	58.8
	Ysgol Gyfun Bryncelynnog	94.3	787.5	52.8
	RhCT – isaf	86	507.1	16.3
	Cyfartaledd RhCT	96.3	677.6	45.1
	Cyfartaledd Cymru	97.1	730.6	54.7

- **Mae'r AWPS ar gyfer Ysgol Uwchradd Pontypridd yn uwch na'r rhan fwyaf o ysgolion.**

Caiff yr AWPS ei gyfrifo trwy rannu cyfanswm nifer y pwyntiau a gafwyd o bob cwrs yng Nghyfnod Allweddol 5 ac nid dim ond nifer y cyrsiau Lefel A neu gyfwerth. Mae Ysgol Uwchradd Pontypridd yn cynnig nifer fawr o gyrsiau Sgiliau Allweddol sy'n chwyddo'r ffigur yma ac yn ei gwneud yn anodd iawn cymharu ag unrhyw sefydliadau eraill. O ganlyniad i hyn, dyw Llywodraeth Cymru, bellach, ddim yn defnyddio'r AWPS er mwyn cymharu meini prawf asesu.

Dylid nodi hefyd dyw'r AWPS ddim yn feini prawf mae Prifysgolion yn eu defnyddio wrth sgorio cais Prifysgol myfyriwr.

- **Dywedodd Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen doedden nhw ddim yn fodlon â'r iaith negyddol a gafodd ei defnyddio er mwyn disgrifio'r ysgolion.**

Nid y bwriad oedd cyfleu agwedd negyddol tuag at unrhyw ysgolion wedi'u heffeithio gan yr ymgynghoriad yma. Mae'r iaith a'r derminoleg gaiff eu defnyddio yn y ddogfen

ymgyngori yn sylwadau yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r data. Mae hefyd yn bwysig cofio, wrth ystyried cyflawniad Ysgolion Uwchradd Pontypridd a'r Ddraenen Wen, fod y ddwy ysgol, hyd yn ddiweddar, yn ddwy o blith deugain ysgol uwchradd ledled Cymru wedi'u nodi gan Lywodraeth Cymru yn rhai sy'n tanberfformio'n gyson a'u bod wedi'u cynnwys yn Rhaglen Her Ysgolion Cymru. Dros y tair blynedd hyd at 2017, roedd y ddwy ysgol wedi cael buddsoddiad ychwanegol sylweddol o dros £1.24miliwn yn ychwanegol at y dyraniad cyllid gan y Cyngor. Roedd gyda nhw hefyd fynediad i gefnogaeth arweinyddiaeth a dysgu o ansawdd uchel wedi'u darparu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r buddsoddiad yma wedi rhoi mantais sylweddol i'r ddwy ysgol dros ysgolion tebyg yng Nghymru. Fodd bynnag, er gwaethaf yr adnodd ychwanegol sylweddol yma, mae'r ddwy ysgol yn parhau i fod mewn diffyg sylweddol.

- **Nodwyd bod y safonau addysg yng Ngholeg y Cymoedd yn destun pryder, yn yr un modd â chanlyniadau ac Adroddiad Estyn 2017.**

Cydnabyddir bod arolygiad Estyn o Goleg y Cymoedd yn 2017 yn feirniadol o'r ddarpariaeth Lefel A. Fodd bynnag, cydnabu Estyn fod y Coleg wrthi'n gwella ansawdd y ddarpariaeth a nododd fod ragolygon y Coleg ar gyfer gwella yn dda. Mae canlyniadau 2018 yn cefnogi casgliadau Estyn ar gyfer gwella.

At hynny, mae'r Coleg hefyd wedi buddsoddi mewn cyflogi athrawon Lefel A newydd ac mae'r Pennaeth newydd yn parhau i sôn am atebolrwydd a chyflawniad ar draws y pynciau academiaidd a galwedigaethol. Mae'r cyfraddau cwblhau llwyddiannus ar gyfer y Coleg wedi cynyddu ar gyfer 2018 o 3% ac 8% ar gyfer y Ganolfan Lefel A.

Mae'r data cyfredol yn y tabl isod yn dangos bod cyflawniad Lefel A Bryncelynnog a Choleg y Cymoedd yn parhau i wella. Bryncelynnog sydd â'r trydydd chweched dosbarth gorau yn Rhondda Cynon Taf yn seiliedig ar raddau A*-C Lefel A. Coleg y Cymoedd sydd â'r dosbarth chweched gorau; Ysgol y Cardinal Newman – y nawfed gorau; Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen – y 12^{fed} gorau ac Ysgol Uwchradd Pontypridd – y 13^{fed} gorau.

	Canran Lefel A		
	A*-A	A*-C	A*-E
Ysgol Bryncelynnog	34.5	81.8	97.3
Coleg y Cymoedd	17.8	74.8	99.0
Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain	24.4	72.6	98.8
Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen	16.9	58.4	88.8
Ysgol Uwchradd Pontypridd	17.4	58.3	90.3
Cyfartaledd RhCT	20.2	71.6	95.4
Cyfartaledd Canolbarth y De	25.6	75.8	97.4

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Adroddiad Deilliannau Dysgwyr Colegau Addysg Bellach ar 7 Chwefror 2019. Mae'n dangos cynnydd pellach gan Goleg y Cymoedd ar draws ystod eang o feysydd cwricwlwm gan gynnwys Lefel A. Mae'r Coleg bellach yn cyflawni'n uwch na'r cyfraddau cymaryddion cenedlaethol ar gyfer y prif gymwysterau cyffredinol ac yn uwch na'r cymaryddion cenedlaethol ar gyfer 65% o'r holl feysydd pwnc. Mae hyn yn welliant sylweddol o 2014/15 pan doedd dim un maes pwnc yn uwch

na'r cymaryddion cenedlaethol. Dyw'r data yma ddim ychwaith yn ystyried y lefel uwch na'r gyfartaledd o amddifadedd ymysg y myfyrwyr, o'i chymharu â chyfartaledd Cymru.

- **Cwestiynau ynghylch y niferoedd ar gyfer chweched dosbarth hyfyw.**

250 o ddysgwyr oedd nifer y dysgwyr a gafodd ei nodi ym Mesur Dysgu a Sgiliau Llywodraeth Cymru 2009 er mwyn i ddarpariaeth chweched dosbarth gadw'i phen uwchlaw'r dŵr yn ariannol. Mae'n debygol bod y ffigur yma yn uwch nawr gan fod y cyllid fesul disgybl yn gymharol is. Dyw unrhyw gynnydd ddim yn cymryd i ystyriaeth chwyddiant.

- **Cafodd cywirdeb y rhifau yn y ddogfen sy'n ymwneud â maint dosbarthiadau chweched dosbarth ei gwestiynu.**

Maen nhw wedi'u gwirio ac maen nhw'n gywir.

Caiff pob ysgol ei hariannu yn uniongyrchol ar gyfer nifer y myfyrwyr sydd wedi cofrestru ar bob cwrs. Felly os oes 14 o fyfyrwyr yn dilyn cwrs yn Ysgol Uwchradd Pontypridd ond mae 8 yn dod o Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, bydd Ysgol Uwchradd Pontypridd ond yn derbyn cyllid ar gyfer y 6 myfyriwr o Ysgol Uwchradd Pontypridd.

- **Caiff ffigurau rhagamcanol y chweched dosbarth eu cwestiynu.**

Mae'r ffigurau wedi'u rhagweld yn seiliedig ar ddata a thueddiadau cyfredol.

- **Beth yw'r cyfiawnhad dros symud holl ddarpariaeth y chweched dosbarth o ardal tref Pontypridd?**

Dyw'r cyfiawnhad dros gael gwared ar y chweched dosbarth o Ysgol Uwchradd Pontypridd, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol y Cardinal Newman ddim yn seiliedig ar ddaearyddiaeth yn unig. Mae Coleg y Cymoedd yn cynnig y ddarpariaeth yma ac mae wedi'i leoli yn nalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, ysgol sy'n gwasanaethu Pontypridd. Fel sy wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori, mae'r cyfiawnhad dros y newid yma yn ymwneud â gwella safonau addysg, bodloni galw disgyblion, cynnig rhagor o ddewis, a gwella hyfywedd ariannol er mwyn datblygu darpariaeth gynaliadwy.

- **Sut mae modd creu canolfan ragoriaeth yng Ngholeg y Cymoedd pan nad oes gan yr ALI fewnbwn?**

Mae gan y Cyngor berthynas waith effeithiol gyda Choleg y Cymoedd ac mae wedi cefnogi datblygiadau campws yn Aberdâr, Llwynypïa a Nantgarw.

Mae'r berthynas rhwng y Coleg a'r Cyngor yn gryfach nag erioed, ac mae cyfleoedd i'r ddau gydweithio yn cael eu datblygu mewn llawer o feysydd newydd. Mae Prif Weithredwr y Cyngor a'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg yn llywodraethwyr ar Fwrdd y Coleg.

- **A ddylai'r £10miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer Ysgol Gyfun Bryncelynnog gael ei ddefnyddio er mwyn adeiladu darpariaeth chweched dosbarth ym Mhontypridd?**

Mae darpariaeth eisoes ym Mhontypridd yng Ngholeg y Cymoedd.

Cynnig 2 – Creu ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer y Ddraenen Wen

- **Pa dystiolaeth sydd yna i gefnogi'r ffaith bod ysgol pob oed yn gweithio?**

Cafodd ysgol pob oed gyntaf y Cyngor ei hagor yn Llanhari chwe blynedd yn ôl, a chafodd tair ysgol pob oed arall eu hagor ym mis Medi 2018. Mae yna hefyd nifer o Gynghorau eraill ledled Cymru sydd wedi agor neu wrthi'n agor neu ymgynghori ar agor ysgolion pob oed hefyd. Felly, mae'r data ar y model ysgol yma'n gymharol newydd.

Serch hynny, rydyn ni'n casglu data ar ffurf deilliannau addysgol, ffigurau presenoldeb, arolygon llais disgyblion ac ati, er mwyn sicrhau ein bod yn monitro'r ysgolion yma'n gyson ac y byddwn yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol. Rydyn ni'n derbyn adroddiadau cadarnhaol iawn yn anffurfiol o'r ysgolion i gyd.

Cafodd penaethiaid o ddwy o'r ysgolion pob oed newydd a gafodd eu hagor ym mis Medi 2018 eu gwahodd gan y Cyngor i fod yn bresennol yn y nosweithiau agored, i roi cyfle i rieni a phartion eraill â buddiant drafod sut mae ysgol 3-16 oed yn gweithredu, a beth yw manteision ac anfanteision y model ysgol newydd yma. Dyma'r dull sydd wedi'i fabwysiadu gennyn ni mewn nifer o'r ymgynghoriadau blaenorol a gafodd eu cynnal ar ad-drefnu ysgolion ac roedd hyn yn fuddiol iawn i'r ymgynghoreion. Yn anffodus, rydyn ni'n cael ar ddeall bod Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Pontypridd a'r Ddraenen Wen wedi pwysu ar y Penaethiaid 3-16 oed i beidio â bod yn bresennol. Mae'n anffodus nad oedd Penaethiaid yr ysgolion 3-16 oed yn teimlo bod modd iddyn nhw ddod i'r cyfarfodydd cyhoeddus oherwydd y pwysau yma oherwydd y gallen nhw wedi rhannu eu profiadau cadarnhaol â rhieni pryderus a lleddfu eu pryderon.

- **Fydd y plant iau a hŷn yn cael eu gwahanu? Dydw i ddim am i'm plentyn ifanc ddod i gysylltiad â themâu hŷn ac iaith amhriodol.**

Mae gennyn ni nifer o ysgolion pob oed sy'n gweithredu yn y Fwrdeistref Sirol ac mae hyn yn cael ei reoli gyda gwahaniad priodol o'r disgyblion iau a hŷn. Mae'r ysgolion wedi'u cynllunio fel bod mynedfeydd, amgylcheddau dysgu, toiledau a manau chwarae a dysgu awyr agored ar wahân.

Mae'r ysgolion pob oed yn y Fwrdeistref Sirol yn cael eu rheoli'n wahanol gan ddibynnu ar yr ethos y mae'r Pennaeth yn ei ennyn yn yr ysgol, ac felly does yr un o'r ysgolion yn gweithredu yn yr un ffordd yn union. Serch hynny, pan fydd disgyblion o wahanol oedrannau yn integreiddio neu'n cydweithio ar brosiectau ysgol, yr hyn sy'n gyffredin yw ei fod yn cael ei wneud o dan oruchwyliaeth. Dylid cydnabod hefyd bod modd i blant ysgol hŷn fod yn fodolau rôl cadarnhaol i blant iau a bod modd iddyn nhw gynorthwyo gyda mentora cymheiriaid a chynlluniau cyfeillio.

- **Beth fydd effaith y traffig ychwanegol? Sut y caiff hyn ei reoli?**

Bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno'n benodol ar gyfer yr ysgol newydd, ac yn rhan ohono, bydd asesiad o'r effaith ar y traffig yn cael ei gynnal a fydd yn canolbwyntio ar yr ardal gyfagos. Bydd yr asesiad yn ystyried a oes digon o le ar y briffordd ar hyn o bryd ac effaith unrhyw gynnydd yn llif y traffig nid yn unig ar y briffordd ond ar y llwybrau i feicwyr a cherddwyr hefyd.

Y disgwyl yw y bydd yr adroddiad yma'n cynnwys argymhellion mewn perthynas â gwella'r seilwaith priffyrdd presennol yn ogystal â chynnwys mesurau diogelwch i gerddwyr a fydd efallai'n cynnwys arafu traffig neu groesfannau ychwanegol i gerddwyr.

Arweiniodd y newidiadau ysgol diweddaraf yn y Porth, Tonypandy a Thonyrefail at y Cyngor yn buddsoddi symiau sylweddol mewn gwell llwybrau diogel i ysgolion, sydd o fudd i'r gymuned gyfan ac sydd wedi bod yn llwyddiannus.

- **Fydd gan yr athrawon y profiad a'r sgiliau i addysgu ar draws pob cyfnod allweddol?**

Bydd strwythur yr ysgol 3-16 newydd, a'r strwythur staffio perthnasol, yn cael eu datblygu a'u gweithredu gan y Corff Llywodraethu dros dro a'r Pennaeth newydd, ar ôl ei benodi. Byddan nhw'n sicrhau bod staff sydd â phrofiad priodol yn cael eu penodi o dan arweiniad Carfan Adnoddau Dynol y Cyngor.

Mae ysgolion pob oed yn rhoi cyfleoedd am hyfforddiant pellach a datblygiad staff ac am ddatblygu swyddogaethau arbenigol.

- **Bydd rhaid addysgu disgyblion ar safle adeiladu.**

Bydd gan y contractwyr a fydd yn gwneud y gwaith ar y safle brofiad o weithio ar safleoedd ysgol byw. Bydd eu profiad o hyn yn un o lawer o agweddau a gafodd eu sgorio yn rhan o'r broses dendro gystadleuol.

Bydd iechyd a diogelwch y disgyblion a'r staff yn hollbwysig bob amser, a bydd y contractwyr yn cydweithio gyda'r ysgol a'r Cyngor i sicrhau bod unrhyw darfu yn cael ei gadw i'r lleiaf posibl. Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o reoli hyn ac mae'r prosesau a'r gweithdrefnau rydyn ni wedi'u mabwysiadu ar brosiectau eraill wedi bod yn llwyddiannus iawn.

- **Ydy'r model yma yn efelychu Ysgolion Academi Lloegr?**

Nac ydy, dydy e ddim.

- **Bydd maint dosbarthiadau yn rhy fawr.**

Bydd capasiti'r ysgol a'r ystafelloedd dosbarth yn cael eu cynllunio ar gyfer 30 o ddisgyblion.

- **Drwy gau'r ysgolion cynradd rydyn ni'n cael effaith negyddol ar y cymunedau lleol.**

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi cael ei gynnal a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae hefyd ynghlwm yn Atodiad 2 yr adroddiad yma.

- **Mae gan rai o'r cymunedau sydd wedi'u heffeithio deuluoedd agored i niwed. Sut fyddwch chi'n sicrhau y bydd y teuluoedd yma'n cael eu hintegreiddio i'r ysgol newydd?**

Mae profiad sylweddol gyda ni eisoes o ddod â disgyblion a'u teuluoedd at ei gilydd pan fyddwn ni'n agor ysgolion newydd ac mae'r broses drosglwyddo yn cael ei

chynllunio a'i rheoli'n dda yn ystod y cyfnod cyn dechrau'r flwyddyn ysgol newydd. Byddwn ni'n defnyddio'r dulliau blaenorol, gan weithio gyda'r Penaethiaid priodol i gynllunio hyn yn effeithiol cyn gynted â phosibl.

Ers i ni ymgymryd â'r broses ad-drefnu ysgolion ddiwethaf yng Nghwm Rhondda, mae'r Cyngor wedi sefydlu'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth, sy'n rhoi cymorth i deuluoedd ar draws Rhondda Cynon Taf trwy ddull Tîm o Amgylch y Teulu. Mae'r Gwasanaeth yn canolbwyntio ar gynyddu cydnerthedd teuluoedd trwy ddarparu cefnogaeth ddwys am hyd at 12 wythnos ac mae wedi'i gynllunio i roi cymorth ymarferol i deuluoedd er mwyn iddyn nhw reoli'r heriau maen nhw'n eu hwynebu trwy ganolbwyntio ar eu cryfderau fel teulu.

Mae pob ysgol yn y Fwrdeistref Sirol yn gweithio'n agos gyda'r Garfan Teuluoedd Cydnerth i ddatrys unrhyw broblemau sy'n wynebu teuluoedd. Caiff teuluoedd eu hunain neu ysgolion sydd â chaniatâd y teulu wneud atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth. Efallai bydd creu ysgolion mwy hefyd yn meithrin gallu o fewn strwythurau staffio a chyfleoedd i ddatblygu swyddi lles a/neu gyswllt teuluol mwy arbenigol a fydd yn amlwg o fudd i blant a theuluoedd mwy agored i niwed.

Cynnig 3 – Creu ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd

- **Beth yw manteision ysgol pob oed?**

Fel yr uchod ac fel sydd wedi'i nodi yn y ddogfen ymgynghori.

- **Fydd y plant iau a hŷn yn cael eu gwahanu? Dydw i ddim am i'm plentyn ifanc ddod i gysylltiad â themâu ac iaith hŷn.**

Fel yr uchod.

- **Beth fydd effaith y traffig ychwanegol? Sut y caiff hyn ei reoli?**

Fel yr uchod.

- **Fydd gan yr athrawon y profiad a'r sgiliau i addysgu ar draws pob cyfnod allweddol?**

Fel yr uchod.

- **Drwy gau'r ysgolion cynradd rydyn ni'n cael effaith negyddol ar y cymunedau lleol.**

Fel yr uchod.

- **Cafodd pryderon ynghylch lefelau llygredd o amgylch yr A470 eu codi.**

Mae'r Awdurdod Lleol yn monitro ansawdd aer awyr agored amgylchynol yn rheolaidd yn y Fwrdeistref Sirol ac mae canlyniadau'r monitro yma yn cael eu cymharu ag Amcanion Ansawdd Aer sy'n seiliedig ar iechyd. Mae'r rhwydwaith monitro yn cael ei fonitro yn rheolaidd i bennu'r lleoliadau mwyaf perthnasol i'w monitro, o ran canllawiau statudol, asesiadau blaenorol a gwybodaeth leol. Mae'r gwaith monitro wedi dangos bod ansawdd yr aer yn dda yn y mwyafrif helaeth o'r Fwrdeistref Sirol, gyda'r ardaloedd

o ansawdd aer gwael yn gyfyngedig iawn. Mae copi o'r Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer diweddaraf ar gael ar wefan y Cyngor.

Yn y Fwrdeistref Sirol, rydyn ni'n cydnabod efallai bod Nitrogen Deuocsid, llygrydd aer sy'n aml yn gysylltiedig ag allyriadau traffig ffordd, yn uchel mewn rhai lleoliadau ar wahân. Mae hyn yn dibynnu ar faint o draffig, agosrwydd adeiladau/pobl, hinsawdd, topograffeg yr ardal a'r amgylchedd adeiledig cyfagos. Rydyn ni'n deall efallai bod yr A470 fod yn ffynhonnell sylweddol o Nitrogen Deuocsid ar hyd gwahanol rannau o'i hyd, fodd bynnag, efallai bod nifer o ffactorau yn effeithio ar ei amlygiad a'i wasgariad. Felly dydy pob cymuned ar hyd yr A470 ddim yn profi lefelau tebyg o Nitrogen Deuocsid nac mewn perygl o beidio â chydymffurfio ag Amcan Ansawdd Aer. Mae'r Awdurdod Lleol wedi nodi tair ardal ar wahân, Cilfynydd (174 eiddo), Llwyn yr Eos (11 eiddo) a Threfforest (8 eiddo) lle mae agosrwydd yr A470, amgylchedd a thopograffeg yr ardal, wedi bod yn ffactorau sylweddol yn yr angen i ddatgan Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer cysylltiedig. Mae gan bob un o'r tair Ardal Rheoli Ansawdd Aer sy'n gysylltiedig â'r A470 boblogaethau preswyl mewn ardaloedd adeiledig o fewn 10-15 metr o'r A470.

Mae Canllawiau Statudol wedi cael eu defnyddio gan yr Awdurdod Lleol i gynllunio'r rhwydwaith monitro gofynnol yn Rhondda Cynon Taf ers 1998 ac mae'n helpu i sefydlu'r tebygolrwydd o gydymffurfio ag Amcan Ansawdd Aer mewn lleoliad penodol. Y Canllawiau cyfredol (Canllawiau Technegol Rheoli Ansawdd Aer Lleol. TG16) yn awgrymu, mewn lleoliadau fel Ysgol Uwchradd Pontypridd, lle byddai aelodau o'r cyhoedd / myfyrwyr yn ymgynnull y tu hwnt i 20m o ardal gaiff ei defnyddio ar ffordd strategol fawr (yr A470), eu bod yn debygol o gydymffurfio ag Amcanion Ansawdd Aer ar gyfer Nitrogen Deuocsid. Mae ffactorau lleol eraill, fel llif traffig, cyfeiriad gwynt a thopograffeg yr ardal, a fyddai hefyd yn cael eu hystyried wrth asesu ansawdd aer yn y lleoliad yma. Mae gan yr ardal yma o'r A470 lif cymharol rydd o draffig, o'i chymharu ag ardaloedd mwy prysur eraill ac mae'r ysgol wedi'i lleoli ym môn y gwynt, gyda'r gwynt yn chwythu fel arfer i ochr arall yr A470 yn y lleoliad yma. Yn ogystal, mae'r A470 wedi'i lleoli ar uchder ychydig yn uwch nag Ysgol Uwchradd Pontypridd, ac o ganlyniad byddai'n elwa o wasgariad gwell o gymharu ag ardaloedd ag amgylchedd adeiledig yn agos ac yn union gerllaw'r A470 neu'n uwch.

Felly, yn unol â chanllawiau statudol a gwybodaeth o'r ardal leol sydd wedi'i hamlinellu uchod, does dim unrhyw waith monitro wedi'i gynnal yn Ysgol Uwchradd Pontypridd, gan na chredir ei bod mewn perygl o dorri'r Amcan Ansawdd Aer perthnasol. Serch hynny, er mwyn rhoi tawelwch meddwl, mae dyfais fonitro wedi'i sefydlu ar leoliad achos gwaeth posibl ar y campws ers mis Rhagfyr 2018, er mwyn cael y data ansawdd aer gofynnol, er mwyn gallu cymharu'r canlyniadau â'r Amcan Ansawdd Aer blyneddol ar gyfer Nitrogen Deuocsid.

- **Angen mynd i'r afael â materion traffig ger yr ysgolion.**

Bydd cais cynllunio yn cael ei gyflwyno'n benodol ar gyfer yr ysgol newydd, ac yn rhan ohono, bydd asesiad o'r effaith ar y traffig yn cael ei gynnal a fydd yn canolbwyntio ar yr ardal gyfagos. Bydd yr asesiad yn ystyried a oes digon o le ar y briffordd ar hyn o bryd ac effaith unrhyw gynnydd yn llif y traffig nid yn unig ar y briffordd ond ar y llwybrau i feicwyr a cherddwyr hefyd.

Y disgwyl yw y bydd yr adroddiad yma'n cynnwys argymhellion mewn perthynas â gwella'r seilwaith priffyrdd presennol yn ogystal â chynnwys mesurau diogelwch i gerddwyr a fydd efallai'n cynnwys arafu traffig neu groesfannau ychwanegol i gerddwyr. Arweiniodd y newidiadau ysgol diweddaraf yn y Porth, Tonypandy a

Thonyrefail at y Cyngor yn buddsoddi symiau sylweddol mewn gwell llwybrau diogel i ysgolion, sydd wedi bod o fudd i'r gymuned gyfan.

Cynnig 4 – Creu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd

- **Dylai fod ysgol cyfrwng Cymraeg yng ngogledd Pontypridd**

Rydyn ni'n bwriadu adeiladu ysgol newydd sbon yn ardal Pontypridd. Bydd cludiant ysgol ar gael i'r rhai sy'n gymwys. Mae ysgol cyfrwng Cymraeg eisoes ym Mhontypridd h.y. Ysgol Gynradd Gymraeg Evan James sydd â chapasiti dros ben ac mae hefyd Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon i'r gogledd.

- **Beth am ddefnyddio'r safle yng Nglyn-coch?**

Mae'r holl gynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad yn ddibynnol ar ei gilydd. Drwy gau Ysgol Gynradd Heol y Celyn a throsglwyddo'r disgyblion cyfrwng Saesneg i'r Ddraenen Wen, mae hyn yn rhyddhau safle rydyn ni'n gwybod sy'n addas, i adeiladu ysgol cyfrwng Cymraeg newydd a mwy o faint a fydd â digon o le i ddisgyblion Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton yn ogystal â'r disgyblion cyfrwng Cymraeg sydd eisoes yn mynychu Heol y Celyn.

- **Dylai Ysgol Heol y Celyn gael ei gwneud yn ysgol Gymraeg yn unig a dylai Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton gael ei hadnewyddu.**

Dydy'r galw am addysg Cyfrwng Cymraeg ddim yn cyfiawnhau hyn yn yr ardal yma.

- **Bydd rhaid i ddisgyblion deithio'n bellach ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a dydy hyn ddim yn dderbyniol.**

Rydyn ni'n cydnabod efallai bod hyn yn wir ar gyfer rhai disgyblion. Serch hynny, fydd mwyafrif y disgyblion ddim yn cael eu heffeithio oherwydd bod bron i 70% o'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ar hyn o bryd yn defnyddio'r gwasanaeth cludo disgyblion.

Bydd pellteroedd llwybrau bysiau ysgol y llwybrau newydd arfaethedig yn fyrrach na'r llwybrau bws ysgol presennol. Rydyn ni wedi cyfrifo'r llwybrau, a bydd y pellter cyffredinol cyfartalog ar gyfer y disgyblion hynny sydd eisoes yn defnyddio cludiant ysgol yn cael ei fyrhau ychydig o dros filltir y dydd.

- **Mae'r traffig sy'n cael ei achosi gan gludiant ysgol yn Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton yn achosi tagfeydd. Bydda i a thrigolion eraill yn falch o weld yr Ysgol Gymraeg yn symud i rywle arall. Flynyddoedd yn ôl roedd yr ysgol yn ysgol cyfrwng Saesneg a oedd yn cael ei defnyddio gan blant lleol yn cerdded i'r ysgol. Nid dyma'r achos mwyach ac mae'r bysiau a'r rhieni yn achosi trallod i drigolion lleol sy'n ceisio cyrraedd y gwaith.**

Mae hynny'n wir. Mae gollwng a chasglu plant bob dydd yn anodd iawn yn uniongyrchol oddi ar yr A4054 ac mae'n bosibl bod hyn yn achosi tagfeydd oherwydd anawsterau sy'n gysylltiedig â safle presennol yr ysgol.

- **Byddai rhaid i rieni ddal dau fws i godi eu plant mewn argyfwng.**

Mae bws uniongyrchol i Heol y Celyn o Lyn-coch, ond o Ynys-y-bŵl a Chilfynydd byddai angen newid bws yng Ngorsaf Fysiau Pontypridd.

Serch hynny, ar hyn o bryd mae gofyn i rieni o Lyn-coch ac Ynys-y-bŵl sydd angen mynd i Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton mewn argyfwng ar gludiant cyhoeddus newid bysiau yng Ngorsaf Fysiau Pontypridd.

Ddylai ddim bod angen casglu plant mewn argyfwng yn aml iawn.

- **Fydd rhieni yng ngogledd Pontypridd ddim yn anfon eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg gan nad oes meithrinfa cyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Oes modd rhoi meithrinfa cyfrwng Cymraeg mewn ysgol arall yng ngogledd Pontypridd, a fydd yn y pen draw yn bwydo i'r ysgol newydd yn Rhydfelen?**

Mae yna Feithrinfa Cyfrwng Cymraeg eisoes yn Ynys-y-bŵl a lleoliad digofrestredig yng Nghilfynydd.

- **Bydd y Cyngor yn gostwng nifer yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn Rhondda Cynon Taf. Mae hyn yn annerbyniol a fydd e ddim yn helpu i gyrraedd targed Cymraeg 2050.**

I'r gwrthwyneb, bwriad y cynigion yma yw buddsoddi mewn ysgol gynradd newydd sbon fwy o faint a fydd yn cynyddu'r lleoedd ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg gan 93 ar draws y darpariaethau presennol.

Mae'r Cyngor yn cyfrannu at y targed yma mewn ardaloedd eraill yn y Fwrdeistref Sirol gan ein bod ni'n cynyddu ein lleoedd cyfrwng Cymraeg mewn nifer o ysgolion trwy gyflwyno ein prosiectau Ysgolion 21^{ain} Ganrif. Rydym eisoes wedi cynyddu capasiti ac wedi gwneud gwelliannau mewn nifer o ysgolion, gan gynnwys Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail ac Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynecelyn; rydyn ni ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gynyddu'r capasiti cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gynradd Gymunedol Penderyn; ac rydyn ni'n bwriadu cynyddu capasiti yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr ac Ysgol Gyfun Rhydywaun gan ddefnyddio buddsoddiad Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Mae hyn yn amlygu ymrwymiad y Cyngor i wella addysg cyfrwng Cymraeg.

- **Mae 25% o ddisgyblion RhCT yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ydy'r ALI yn gwario 25% o'i gyllideb Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ar Ysgolion Cymraeg?**

Ar hyn o bryd, mae ychydig o dan 20% o ddisgyblion yn RhCT yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfanswm yr arian ar gyfer Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Band B yw oddeutu £168 miliwn – dyma'r cyllid sy'n cwmpasu'r gwaith sydd ei angen yn rhan o'r ymgynghoriad yma.

O fewn y gyllideb drosfwaol yma, rydyn ni'n rhagweld y bydd y buddsoddiad i wella addysg cyfrwng Cymraeg tua £60 miliwn, sy'n cyfateb i 35%.

- **Does dim tryloywder ynghylch sut y gwnaed y penderfyniad yma. Gawn ni weld yr opsiynau a gafodd eu diystyru?**

Os ydyn ni am fwrw ymlaen â'r cynigion yma fel sydd wedi ymgynghori arnyn nhw, yna, bydd y safle yn Heol y Celyn yn ein galluogi ni i adeiladu ysgol cyfrwng Cymraeg fwy o faint a fydd yn bodloni ein safonau Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Mae hwn yn gyfnod

ymgyngori ac os bydd penderfyniad yn cael ei wneud i beidio â bwrw 'mlaen â'r cynigion yma, yna, bydd opsiynau eraill yn cael eu hystyried.

- **Dylai'r cynnig ar gyfer yr ysgol newydd gynnwys uned AAA cyfrwng Cymraeg. Dyma gyfle wedi'i golli.**

Efallai bydd hyn yn rhywbeth y byddwn ni'n ei ystyried maes o law gan ein bod ni'n adolygu'r angen am ddarpariaeth arbenigol yn yr Awdurdod Lleol yn rheolaidd.

Cynnig 5 – Newidiadau i Ddalgylchoedd

- **Pryderon y bydd grwpiau cyfeillgarwch y disgyblion yn Nhon-teg yn cael eu gwahanu.**

Mae gan bob ysgol ddalgylch dynodedig. Serch hynny, mae gan rieni/gwarcheidwaid yr hawl i ddewis unrhyw ysgol ar gyfer eu plant. Os ydy nifer y ceisiadau am lefydd mewn grŵp blwyddyn penodol islaw nifer derbyn yr ysgol honno, caiff y ceisiadau i gyd eu caniatáu. Mae gan Bryncelynnog dros 200 o leoedd gwag ac mae 200 o leoedd eraill yn yr ysgol yn cael eu defnyddio gan blant o ardal Ton-teg. Felly, hyd y mae modd rhagweld, dylai plant sy'n byw yn Nhon-teg fod â'r hawl i ymgeisio a sicrhau lle yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog.

- **Pryderon y bydd effaith niweidiol ar les y rhai sy'n mynychu Gwauncelyn wrth iddyn nhw drosglwyddo i ysgol wahanol**

Mae nifer o enghreifftiau ar draws y Fwrdeistref Sirol lle mae plant yn yr un ysgol gynradd yn mynd i ysgolion uwchradd gwahanol ac mae'r broses bontio wedi'i chynllunio a'i rheoli'n dda. Mae proses bontio ystyrlon a llwyddiannus yn rhan annatod o sicrhau bydd disgyblion yn ymgartrefu yn eu hamgylcheddau ysgol newydd heb fawr o amhariad. Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer pob ysgol i sicrhau bod y broses bontio mor ddidrafferth a dibryder i'r disgyblion ag sy'n bosibl.

- **Ydy'r llwybr cerdded rhwng Ysgol Gynradd Gwauncelyn ac Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yn ddiogel?**

Os bydd y cynigion i newid dalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yn mynd rhagddo, bydd adolygiad o'r llwybr cerdded yma yn cael ei gomisiynu i sicrhau diogelwch y disgyblion. Bydd yr adolygiad yma yn cynnwys asesiad annibynnol o'r llwybr, a bydd unrhyw argymhellion sy'n cael eu gwneud gan yr aseswr annibynnol yn cael eu gweithredu.

- **Fydd pob disgybl sy'n byw yn Nhon-teg ddim yn gymwys i gael eu cludo am ddim i Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen.**

Mae hyn yn wir. Mae'r meini prawf sy'n cael eu defnyddio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i bennu cymhwysedd i gael cludiant am ddim yn seiliedig ar bellter cerdded, hynny yw, y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Mae gwasanaeth cludiant am ddim yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion ysgol gyfun y mae eu cartrefi yn fwy na dwy filltir o'r ysgol agosaf neu'r ysgol dalgylch.

O ran pellter a bod yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r ysgol, mae'r Cyngor yma yn fwy hael na'r hyn sy'n cael ei bennu ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, sydd dim ond yn gofyn bod gwasanaeth cludiant yn cael ei ddarparu ar gyfer y disgyblion ysgol gyfun hynny sy'n byw mwy na thair milltir o'u hysgol agosaf neu eu hysgol dalgylch.

- **Mae gan Don-teg gysylltiadau cymunedol cryf â Llanilltud Faerdref a Phentre'r Eglwys. Does dim cysylltiadau cymunedol â'r Ddraenen Wen.**

Does dim rheswm pam y bydd unrhyw o'r cysylltiadau yma'n cael eu heffeithio'n andwyol gan y cynigion yma. Bydd Ysgol Gynradd Gwauncelyn yn aros ar agor ac felly bydd y cysylltiadau cymunedol yma'n parhau.

- **Cafodd pryderon eu codi am y llwybr cerdded a lefel yr allyriadau traffig.**

Dydy ansawdd yr aer ddim yn cael ei fonitro yn yr ardal yma a dydy'r llwybr ddim yn arwain trwy Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Rydyn ni'n cydnabod bod tagfeydd ar yr A473 yn arbennig yn ystod oriau brig yn y bore a chyda'r nos ar hyd y ffordd sy'n arwain at gylchfan Ystad Ddiwydiannol Trefforest / Glan-bad.

Serch hynny, mae'n annhebygol y byddai amlygiad ar hyd y llwybr yn ddigon hir i dorri Safonau Ansawdd Aer ond argymhellir y dylid sicrhau bod llygredd aer mor isel â phosibl.

- **Roedd diffyg ymgynghori â rhieni Ysgol Gynradd Gwauncelyn**

Y cynnig yw newid dalgylch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gyfun Bryncelynnog, nid Ysgol Gynradd Gwauncelyn. Er hynny, ymgynghoron ni â chorff llywodraethu, rhieni/gwarcheidwaid, cynhalwyr a staff Ysgol Gynradd Gwauncelyn (mae rhestr lawn o'r ymgynghoreion wedi'i chynnwys yn adran 1 yr adroddiad yma).

- **Mae'r Ddraenen Wen yn ysgol waeth na Bryncelynnog. Dydw i ddim eisiau i'm plentyn fynd yno.**

Gweler y pwynt uchod sy'n cyfeirio at ddewis disgybl / rhiant.

Yn ein dogfen ymgynghori, rydyn ni wedi cydnabod bod Bryncelynnog, yn gyson, wedi cyflawni canlyniadau gwell na rhai ysgolion uwchradd eraill dros y blynyddoedd diwethaf. Ar ben hynny, yn ogystal â'r System Categoriiddio Ysgolion ddiweddaraf, mae Bryncelynnog yn cael ei chategoriiddio fel ysgol 'werdd' lle mae Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yn ysgol 'felen'.

Mae'r cynigion yma i ad-drefnu ysgolion wedi'u cysylltu â'i gilydd ac wrth wraidd y cynigion mae codi safonau mewn addysg. Trwy eu gweithredu, rydyn ni'n bwriadu mynd i'r afael â nifer o'r anghysondebau sy'n bodoli rhwng yr ysgolion. Bydd dileu'r chweched dosbarth a chreu ysgolion 3-16 oed yn y Ddraenen Wen a Phontypridd yn galluogi'r ysgolion i ailddyrranu adnoddau y mae mawr eu hangen i Gyfnodau Allweddol 3-4, yn hytrach na defnyddio'r adnoddau yma i greu chweched dosbarth bach ac anghynladwy. Bydd hyn yn galluogi'r ysgolion yma i ganolbwyntio ar ddarparu adnoddau priodol a gwella safonau addysgol ym mhob cyfnod allweddol.

Bydd gwaith gyda'r ysgolion newydd yn parhau gyda chefnogaeth y Cyngor i sicrhau y bydd y safonau dysgu yn yr ysgolion presennol yn parhau i wella drwy gyfnod pontio creu'r ysgolion newydd a thu hwnt.

- **Does dim cludiant cyhoeddus i'r Ddraenen Wen o Don-teg**

Mae cysylltiadau bws rhwng y ddwy ardal er nad oes cysylltiadau trafniadaeth uniongyrchol. Mae angen newid bws wrth dafarn y 'Pottery' (Ystad Trefforest) neu Ysgol Parc Lewis (Trefforest).

5. Casgliad

O ystyried yr ymatebion a'r sylwadau a gafodd eu derbyn yn ystod y cyfnod ymgynghori, mae asesiad arall o'r cynigion sydd yn y ddogfen ymgynghori wedi cael ei gynnal. Mae'r cynigion wedi cael eu hailystyried ynghyd ag effaith y cynigion ar y safonau addysg, y gymuned a'r trefniadau cludiant.

Y cynnig gwreiddiol oedd:

- Cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain a throsglwyddo'r ddarpariaeth ôl-16 oed i Ysgol Gyfun Bryncelynnog neu Goleg y Cymoedd, Nantgarw. Ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n dewis addysg Gatholig, bydd darpariaeth chweched dosbarth ar gael yng Ngholeg Dewi Sant, Caerdydd;
- Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd, a chreu ysgol 3-16 oed newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd;
- Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn a chreu ysgol 3-16 oed newydd ar safle presennol Ysgolion Gynradd ac Uwchradd y Ddraenen Wen. Bydd dosbarth arbenigol ADY dynodedig yr awdurdod lleol sydd wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen hefyd yn cael ei drosglwyddo i'r ysgol newydd;
- Ail-leoli Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton i adeilad ysgol newydd i'w adeiladu ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Bydd disgyblion ffrwd Gymraeg Ysgol Gynradd Heol-y-Celyn yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton (bydd disgyblion ffrwd Saesneg Heol y Celyn yn trosglwyddo i'r ysgol 3-16 oed newydd yn y Ddraenen Wen, gweler uchod);
- Diwygio'r dalgyloedd i ddisgyblion 11-16 oed o'r tair ysgol uwchradd wedi'u cynnal gan yr Awdurdod Lleol trwy wneud y canlynol:
 - Trosglwyddo ardal Y Graig ym Mhontypridd (sy'n rhan o ddalgyloch Ysgol Gynradd Maes-y-coed) i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgyloch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen)
 - Trosglwyddo dalgyloch Ysgol Gynradd Coedpenmaen i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer Pontypridd (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgyloch Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen)
 - Trosglwyddo dalgyloch Ysgol Gynradd Gwauncelyn i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer y Ddraenen Wen (ar hyn o bryd mae'r ysgol yn rhan o ddalgyloch Ysgol Gyfun Bryncelynnog).

Rydyn ni'n argymhell y dylai'r cynnig isod gael ei gadw ac eithrio'r newid arfaethedig i ddalgyloch Ysgol Gyfun Bryncelynnog. Rydyn ni'n argymhell bod y dalgyloch ar gyfer Ysgol Gynradd Gwauncelyn yn aros o fewn dalgyloch Ysgol Gyfun Bryncelynnog ac nad yw'n trosglwyddo i'r ysgol 3-16 oed newydd ar gyfer y Ddraenen Wen. Ers i'r

ymgyngoriad ddechrau ym mis Hydref 2018, mae safle tir llwyd mawr wedi'i brynu gan ddau ddatblygwr mawr ac mae'r Cyngor wedi dechrau cynllunio ar y safle gyda'r cynllunwyr er mwyn darparu cyngor ac arweiniad cyn cynllunio. Er mwyn i'r safle gael ei ddatblygu, bydd angen ysgol uwchradd newydd, a fydd, ynghyd â'r datblygiad tai ar hyd yr A473 o Lanharan i Don-teg, yn gofyn am adolygiadau dalgylch cynhwysfawr ar gyfer dalgylchoedd Y Pant a Bryncelynnog. At hynny, mae angen adolygu Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor yn 2021, neu ddatblygu cynllun cyfatebol.

Felly y cynnig yw bod dalgylchoedd ysgolion uwchradd ar draws De'r Fwrdeistref Sirol yn cael eu hadolygu ar y cyd ochr yn ochr â'r Cynllun Datblygu Lleol newydd (neu gyfatebol) wrth iddo gael ei baratoi.

Yr argymhellion sydd i'w rhoi gerbron cyfarfod nesaf o Gabinet y Cyngor yw bod y pedwar hysbysiad statudol canlynol yn cael eu cyhoeddi i symud ymlaen gyda'r cynigion yma.

- Newid yr ystod oedran o ddisgyblion y mae modd eu derbyn i Ysgol Gyfun Gatholig Cardinal Newman, o 11-19 oed i 11-16 oed, gan arwain at ddileu'r ddarpariaeth chweched dosbarth;
- Cau Ysgol Uwchradd Pontypridd ac Ysgol Gynradd Cilfynydd a chreu ysgol 3-16 oed newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd Pontypridd. Fydd dim darpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol yma;
- Cau Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen a chreu ysgol 3-16 oed newydd ar safle presennol Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Gynradd y Ddraenen Wen, gyda dosbarth arbenigol ADY dynodedig yr Awdurdod Lleol wedi'i leoli yn Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen, yn ogystal â disgyblion sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Saesneg yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn yn cael eu trosglwyddo i'r ysgol newydd. Fydd dim darpariaeth chweched dosbarth yn yr ysgol yma;
- Cau Ysgol Gynradd Gymraeg Pont Siôn Norton ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn ac agor ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ar safle presennol Ysgol Gynradd Heol y Celyn.

Os bydd cymeradwyaeth, bydd y pedwar hysbysiad statudol sy'n ffurfio'r cynnig yma'n cael eu cyhoeddi yn Ebrill 2019. Bydd cyfnod o o leiaf 28 diwrnod lle caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion.

Mae'r holl gynigion wedi'u hymgyngori arnyn nhw, yn yr adroddiad yma, yn dibynnu ar benderfyniadau fydd yn cael eu gwneud ar ailstrwythuro darpariaeth chweched dosbarth yn y dyfodol. Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn nodi bod rhaid i unrhyw gynigion sy'n effeithio ar addysg chweched dosbarth gael eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru; a **rhaid** i'r Cyngor anfon unrhyw gynigion sydd yn ei farn ef yn gysylltiedig â'r cynigion y mae angen penderfynu arnyn nhw at Weinidogion Cymru.

Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cadarnhau y bydd dim ond yn penderfynu ar y cynnig sy'n ymwneud â symud y chweched dosbarth o Ysgol Gyfun Gatholig Cardinal Newman. Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau statudol sy'n cael eu derbyn at Weinidogion Cymru, yn ogystal â'r Adroddiad Gwrthwynebiadau wedi'i gyfeirio ato uchod, o fewn 35 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu er mwyn iddyn nhw ystyried a phenderfynu ar ganlyniad y cynnig yn ymwneud ag Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain.

Cabinet y Cyngor fydd yn gwneud penderfyniad ynglŷn â gweddill y cynigion. Ar ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu, bydd Adroddiad Gwrthwynebiadau yn cael ei lunio, a fydd yn

crynoi unrhyw wrthwynebiadau sydd wedi'u derbyn. Bydd canlyniad y rhan yma o'r broses yn cael ei ystyried gan y Cabinet eto mewn cyfarfod a fydd yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2019.